



Hyfforddiant Meddygon Teulu yng Nghymru.

Fel Meddyg Teulu dan hyfforddiant yng Nghymru, byddwch yn cael y cyfle i weithio mewn cyfleusterau modern, derbyn cymorth gan feddygon profiadol a manteisio ar ein hopsiynau hyfforddiant hyblyg.

Mae gennym gyfleoedd ledled y wlad, o ddinasoedd byrlymus, i drefi bywiog y cymoedd a phentrefi traddodiadol. Os ydych chi'n dewis hyfforddi mewn lleoliad gwledig neu drefol, byddwch yn profi ymdeimlad cryf o gymuned sy'n cysylltu'r holl wlad ac sy'n gwneud Cymru yn lle gwerth chweil i hyfforddi, gweithio a byw.

Croeso i'r Hyfforddiant.

Hyfforddiant Meddygon Teulu yng Nghymru.

Hyfforddiant arbenigol Meddygon Teulu

Mae hyfforddiant arbenigol Meddygon Teulu yng Nghymru yn cynnwys 18 mis mewn swyddi sydd wedi'u cymeradwyo mewn ysbytai a 18 mis mewn swyddi ymarfer cyffredinol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cynnig deuddeg cynllun hyfforddiant ledled Cymru.

Trwy ddewis hyfforddi yng Nghymru, cewch fanteisio ar sawl budd – i gyd yn cael eu darparu'n ofalus i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfnod pwysicaf yn eich gyrfa, gan gynnwys:

- Cyngor a chymorth gan un o Gyfarwyddwyr y Rhaglen Meddygon Teulu sy'n gyfrifol am reolaeth leol y cynllun hyfforddiant Meddygon Teulu
- Cyfle i ymgeisio am swyddi Hyfforddiant Academaidd Meddygon Teulu
- Cymorth gan un prif gyflogwr
- Sesiynau addysg yn canolbwyntio ar ymarfer cyffredinol yn ystod pob swydd ysbyty.

Manteision un prif gyflogwr

Mae pob Meddyg Teulu dan hyfforddiant yng Nghymru bellach yn cael ei gyflogi gan un prif gyflogwr, sef Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae hyn yn golygu mai dim ond un contract y bydd yn rhaid i chi ei arwyddo a byddwch yn derbyn profiad cwbl gydgyssylltiedig ar draws eich holl hyfforddiant, gan gynnwys cael atebion i'ch holl ymholiadau'n gyflym.

Hyfforddiant gyda chefnogaeth hyfforddeion

Mae Hyfforddiant Meddygon Teulu yng Nghymru yn derbyn adborth rhagorol cyson yn arolygon blynyddol hyfforddeion y Cyngor Meddygol Cyffredinol o ran boddhad cyffredinol gyda hyfforddiant ac ansawdd yr oruchwyliaeth glinigol ac addysgol.

Peidiwch â phoeni am yswiriant

Fel Meddyg Teulu dan hyfforddiant bydd Cronfa Risg Cymru yn gofalu am eich anghenion indemniad meddygol - sy'n golygu y byddwch chi wedi'ch yswirio'n llawn os yw'ch lleoliad mewn ysbyty neu feddygfa. Gan mai dim ond mewn achosion prin y byddwch angen defnyddio elfen atodol eich indemniad, fel gweithredoedd Samariad Trugarog, byddwch yn cael cyfle i arbed tua £1,500 yn eich ail flwyddyn o hyfforddiant a thua £2,400 yn eich trydedd.

Datblygu'n organig

Mae gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ymrwymiad llwyr i Ddatblygiad Personol Parhaus ar gyfer Meddygon Teulu. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n gallu dewis o bob math o gyrsiau hyfforddi a bydd eich datblygiad yn cael ei lywio gan system arfarnu sydd wedi ennill ei phlwyf. Ar ôl cymhwyso'n llawn, byddwch yn cael eich annog i ddatblygu eich sgiliau hyfforddi eich hun er mwyn i chi allu helpu'r genhedlaeth nesaf o Feddygon Teulu dan hyfforddiant yng Nghymru i wireddu eu potensial.

Cymhellion

Taliad unigol ar gyfer pob hyfforddai ar raglen arbenigeddau Meddygon Teulu yng Nghymru i dalu am sefyll yr Asesiad o Sgiliau Clinigol a'r Prawf Gwybodaeth Gymhwysol am y tro cyntaf. Mae hyn ar gael ar gyfer y rhai sy'n dechrau eu swydd Meddyg Teulu dan hyfforddiant gyntaf yn eu cynllun Meddyg Teulu ym mis Awst 2019 a mis Chwefror 2020.

Os ydych chi'n dewis hyfforddi fel Meddyg Teulu mewn rhai ardaloedd penodol o Gymru, mae cymhelliad wedi'i dargedu o £20,000 cyn belled â'ch bod yn aros yn yr ardal yn ystod yr hyfforddiant ac am flwyddyn o ymarfer wedi hynny.